

# Bywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched

## Canllawiau ymarferol i gwmnïau technoleg

Trosolwg

Cyhoeddwyd 25 Chwefror 2025
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 23 Mai 2025

# Cefndir

1.1 Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, ac mae'n goruchwylio sectorau sy'n cynnwys telegyfathrebiadau, y post, teledu a radio a ddarlledir, a gwasanaethau ar-lein. Cawsom ein penodi yn rheoleiddiwr diogelwch ar-lein o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 ('y Ddeddf') ym mis Hydref 2023.

1.2 Mae gwella diogelwch ar-lein menywod a merched yn flaenoriaeth strategol i Ofcom. Fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein, byddwn yn hoelio ein hymdrechion ar sicrhau bod darparwyr yn gwneud eu gwasanaethau'n ddiogel i fenywod a merched ar-lein. Mae hyn yn cynnwys rhoi canllawiau ymarferol ar sut gellir gwneud gwasanaethau'n fwy diogel, yn ogystal â chefnogi menywod a merched i wneud penderfyniadau gwybodus am y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Rydym ni'n deall bod sicrhau diogelwch menywod a merched yn her gymdeithasol;[1] fodd bynnag, credwn yn gryf fod darparwyr gwasanaethau yn gallu gwneud mwy, ac y dylent wneud mwy.

1.3 Mae'r Ddeddf yn gwneud darparwyr gwasanaethau chwilio a gwasanaethau defnyddiwr i ddefnyddiwr sy'n cael eu rheoleiddio ('gwasanaethau')[2] – gan gynnwys gwasanaethau oedolion, chwilio a chyfryngau cymdeithasol – yn gyfrifol yn gyfreithiol am gadw defnyddwyr yn ddiogel ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gofynion clir ar wasanaethau ar-lein i fynd i'r afael â niwed anghyfreithlon fel camddefnyddio delweddau personol, ac i amddiffyn plant rhag cynnwys niweidiol, gan gynnwys cynnwys pornograffig a chamdriniol.

1.4 Er mwyn helpu gwasanaethau i gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae'n rhaid i Ofcom gyhoeddi Codau Ymarfer a dogfennau canllaw amrywiol. Rydym wedi symud yn gyflym i ddechrau rhoi'r Ddeddf ar waith, ac rydym yn cyhoeddi'r dogfennau hyn fesul cam. Daw'r dyletswyddau i rym ar wahanol adegau hefyd. Fe wnaethom gyhoeddi'r Codau Cynnwys Anghyfreithlon a'r Canllawiau Asesu Risg ym mis Rhagfyr 2024, sy'n nodi sut mae'n rhaid i wasanaethau fynd i'r afael â'u dyletswyddau newydd sy'n ymwneud â niwed anghyfreithlon. Ym mis Ionawr 2024, fe wnaethom gyhoeddi ein datganiad ar sicrwydd oedran ac asesiadau mynediad plant. Ym mis Ebrill 2025, byddwn yn cyhoeddi'r Codau Amddiffyn Plant a'n canllawiau ar asesu risg, gan ystyried sut dylai gwasanaethau fynd i'r afael â'u dyletswyddau newydd sy'n ymwneud â chynnwys sy'n niweidiol i blant. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein Canllawiau Tryloywder yn ystod gwanwyn 2025.[3] Rydym yn barod i gymryd camau gorfodi os nad yw darparwyr yn gweithredu'n brydlon i gydymffurfio â'u dyletswyddau.

1.5 Yn ogystal â'r gofynion hyn, mae'r Ddeddf hefyd yn datgan bod yn rhaid i Ofcom gynhyrchu canllawiau penodol ar sut gall darparwyr fynd i'r afael â chynnwys a gweithgarwch sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched.[4] Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o niwed anghyfreithlon a chyfreithiol sy'n bygwth, yn tawelu, yn sarhau, yn monitro, yn

---

[1] Rydym yn ymwybodol o nifer sylweddol o fentrau byd-eang a domestig sy'n canolbwyntio ar wella diogelwch menywod a merched ar-lein. Mae hyn yn cynnwys mentrau llywodraethol, partneriaethau rhyngwladol a rhaglenni eraill. Er enghraifft, yn y DU, gweler cynlluniau a nodir gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban, yn ogystal â chenhadaeth Llywodraeth y DU i 'haneru trais yn erbyn menywod a merched yn y degawd nesaf.' [cyrchwyd 11 Chwefror 2025].

[2] Drwy gydol y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at y llwyfannau ar-lein fel 'gwasanaethau', a'r endid cyfreithiol sy'n darparu'r gwasanaeth fel 'darparwr gwasanaeth' neu 'ddarparwr'.

[3] I gael rhagor o wybodaeth, cymerwch gip ar ddiweddariad cynnydd Ofcom o ran rhoi'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ar waith. [cyrchwyd 29 Ionawr 2025].

[4] Adran 54 o'r Ddeddf.

gorfodi ac fel arall yn niweidio menywod a merched ar-lein, gan eu hamddifadu o'u diogelwch a'u gallu i fynegi eu hunain yn rhydd.

1.6 Ein canllawiau arfaethedig yw testun yr ymgynghoriad hwn ac maent ar gael yn Atodiad A (Canllawiau drafft).

## Y cyd-destun cyfreithiol

1.7 O dan adran 54 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Ofcom gynhyrchu canllawiau ar gyfer darparwyr gwasanaeth Rhan 3[5] sy'n canolbwyntio ar 'gynnwys a gweithgarwch' sy'n 'effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched.'

1.8 Mae'r Ddeddf yn nodi y dylai'r canllawiau ganolbwyntio ar gynnwys a gweithgarwch y mae gan ddarparwyr gwasanaethau ddyletswyddau mewn perthynas â nhw o dan Ran 3 a Rhan 4 o'r Ddeddf. [6] Dywed hefyd y gall y canllawiau, ymysg pethau eraill, (a) cynnwys cyngor ac enghreifftiau o'r arferion gorau ar gyfer asesu risgiau o niwed i fenywod a merched o gynnwys a gweithgarwch o'r fath; a (b) cyfeirio at ddarpariaethau yng Nghodau Ymarfer Ofcom sy'n ymwneud â dyletswyddau darparwyr gwasanaeth Rhan 3 ac sy'n berthnasol iawn i ddiogelu menywod a merched rhag y cynnwys hwn.[7] Fel hyn, mae'r Ddeddf yn ganiataol o ran yr hyn y gallwn ei gynnwys yn y canllawiau – nid yw'n ein cyfyngu i gynnwys dim ond (a) a (b) yn y canllawiau.

1.9 Cyn cynhyrchu'r Canllawiau terfynol, mae'n rhaid i ni ymgynghori â'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, y Comisiynydd Dioddefwyr a Thystion ac unrhyw bobl eraill sy'n briodol yn ein barn ni.[8] Mae hefyd yn ofynnol i ni ymgynghori ar ganllawiau diwygiedig neu newydd.[9]

1.10 Yn Atodiad 1 i'r Ddogfen Ymgynghori, rydym yn nodi'r cyd-destun cyfreithiol perthnasol ac yn egluro ein dyletswyddau cyffredinol a'r materion y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth gyflawni ein swyddogaethau, ein dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a dyletswydd Ofcom i gyflawni ein swyddogaethau'n gyson â Deddf Hawliau Dynol 1998, gan gynnwys yr hawl i ryddid mynegiant a'r hawl i barchu bywyd preifat a theulu ('preifatrwydd'). Rydym hefyd yn egluro ein dyletswyddau i gynnal asesiad effaith ac asesiadau effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg.

## Ein dull o ymdrin â'r Canllawiau

1.11 Rydym o'r farn bod y Canllawiau yn gyfle i nodi camau ymarferol ar gyfer darparwyr. I wneud hyn, rydym yn gosod sylfaen ar gyfer diogelwch drwy ddod â chanllawiau, mesurau a Chodau perthnasol at ei gilydd ar draws y meysydd Niwed Anghyfreithlon, Amddiffyn Plant a thryloywder (dim ond fel sy'n berthnasol i set benodol o ddarparwyr). Rydym ni hefyd yn

[5] Mae Adran 4(3) o'r Ddeddf yn darparu bod 'gwasanaeth Rhan 3' yn golygu gwasanaeth defnyddiwr i ddefnyddiwr sy'n cael ei reoleiddio neu wasanaeth chwilio sy'n cael ei reoleiddio.
[6] Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn nodi 'dyletswyddau gofal' ar gyfer darparwyr gwasanaethau chwilio a defnyddiwr i ddefnyddiwr sy'n cael eu rheoleiddio, gan gynnwys dyletswyddau sy'n ymwneud â mynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n niweidiol i blant. Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn nodi dyletswyddau eraill ar ddarparwyr gwasanaethau chwilio a defnyddiwr i ddefnyddiwr sy'n cael eu rheoleiddio, ac mae llawer ohonynt dim ond berthnasol i un o is-setiau'r gwasanaethau hyn a elwir yn 'wasanaethau Categori 1'. Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n bodloni amodau trothwy penodol a nodir mewn is-ddeddfwriaeth.
[7] Y Codau Ymarfer perthnasol at y diben hwn yw'r rheini o dan Adran 41 (gweler Adran 54(2)(b)) o'r Ddeddf.
[8] Adran 54(3) o'r Ddeddf.
[9] Adran 54(3) o'r Ddeddf.

mynd ymhellach, gan gynnwys enghreifftiau ychwanegol o arferion da sy'n cynrychioli gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer bywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched. Yn y Canllawiau drafft hyn, rydym yn defnyddio dull diogelwch drwy ddylunio, sy'n dangos sut gall darparwyr wreiddio pryderon menywod a merched drwy gydol y broses o weithredu a dylunio eu gwasanaethau, eu nodweddion a'u swyddogaethau. Yn benodol, rydym yn gofyn i ddarparwyr weithredu mewn naw maes:

| | Disgrifiad | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| Pennod 3: Cymryd cyfrifoldeb | Sut gall darparwyr wneud penderfyniadau a chynnal asesiadau sy'n rhoi cyfrif am brofiadau menywod a merched. | **Cam Gweithredu 1:** Sicrhau bod prosesau atebolrwydd yn mynd i'r afael â diogelwch menywod a merched ar-lein |
| | | **Cam Gweithredu 2:** Cynnal asesiadau risg sy'n cofnodi niwed i fenywod a merched |
| | | **Cam Gweithredu 3:** Bod yn dryloyw ynghylch diogelwch menywod a merched ar-lein |
| Pennod 4: Atal niwed | Sut gall darparwyr atal niwed drwy ddylunio eu gwasanaethau. | **Cam Gweithredu 4:** Gwerthuso pa mor agored yw rhywun i gael ei sarhau a phrofi cynnyrch |
| | | **Cam Gweithredu 5:** Gosod rhagosodiadau mwy diogel |
| | | **Cam Gweithredu 6:** Lleihau cylchrediad niwed ar-lein ar sail rhywedd |
| Pennod 5: Cefnogi menywod a merched | Beth gall darparwyr ei wneud i gefnogi menywod a merched pan fydd niwed yn digwydd ar wasanaethau. | **Cam Gweithredu 7:** Rhoi gwell rheolaeth i ddefnyddwyr dros eu profiadau |
| | | **Cam Gweithredu 8:** Galluogi defnyddwyr sy'n profi niwed ar-lein ar sail rhywedd i wneud adroddiadau |
| | | **Cam Gweithredu 9:** Cymryd camau priodol pan fydd niwed ar-lein ar sail rhywedd yn digwydd |

**Tabl 1: Strwythur y Canllawiau drafft**

1.12 Drwy weithredu yn y meysydd hyn, gall darparwyr gwasanaethau greu amgylcheddau mwy diogel i fenywod a merched. Mae'r gwasanaethau hyn yn chwarae rhan bwysig yn y ffordd rydym ni i gyd yn cyfathrebu, ac mae gan ddarparwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod defnyddwyr yn cael profiadau teg a diogel. Mae dylunio gwasanaethau gyda diogelwch menywod a merched mewn golwg yn hanfodol er mwyn sicrhau ymgysylltiad tymor hwy a meithrin ymddiriedaeth gyda chyfran sylweddol o'u sylfaen cwsmeriaid. Mae ein hadroddiad Ein Gwlad Ar-lein 2024 yn awgrymu bod menywod yn treulio mwy o amser ar-lein na dynion ar draws pob grŵp oedran oedolion. Rydym hefyd yn disgwyl, ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan hysbysebion, y gall dangos eu bod yn cymryd camau dawelu meddwl hysbysebwyr fod eu gwariant hysbysebu yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd nad yw'n tanseilio gwerth brand.

1.13 Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd deialog barhaus a hygyrch i lunio'r Canllawiau drafft hyn. Wrth ddatblygu'r Canllawiau drafft, fe wnaethom gynnal dau weithdy i randdeiliaid i gefnogi ein dehongliad o'r dystiolaeth sydd ar gael ac ehangu ein sylfaen dystiolaeth ymhellach. Ar y cyfan, cymerodd dros 40 o sefydliadau ran. Roedd hyn yn gyfle i ddod ag amrywiaeth o arbenigwyr arbenigol ar niwed ar-lein ar sail rhywedd ledled y DU a

thu hwnt at ei gilydd i sicrhau ein bod yn gallu ystyried y safbwyntiau hyn ar ddechrau'r broses o ddatblygu'r Canllawiau drafft.

1.14 Roedd y gweithdy cyntaf, a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024, yn canolbwyntio ar 'Ddarganfod' ac fe wnaethom ofyn am amrywiaeth eang o safbwyntiau ar yr hyn y dylem ei gynnwys a'i ystyried yn y Canllawiau drafft. Roedd cyrff cyhoeddus, cymdeithas sifil, y byd academaidd ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn bresennol[10]. Roedd yr ail weithdy, a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2024, yn canolbwyntio ar 'Brofi' a gofynnwyd am adborth a thystiolaeth i gynnal profion straen ar ein cyfeiriad teithio. Roedd cyrff cyhoeddus, cymdeithas sifil, y byd academaidd, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a gwasanaethau yn bresennol.[11]

1.15 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, rydym yn gobeithio cael rhagor o wybodaeth am yr hyn mae darparwyr yn ei wneud yn y maes hwn ar hyn o bryd, yn ogystal â safbwyntiau arbenigol, er mwyn i'r Canllawiau terfynol allu cyflwyno gweledigaeth uchelgeisiol y gellir gweithredu arni o fywyd mwy diogel ar-lein i fenywod a merched. Ar ôl ei gwblhau, mae gennym amrywiaeth o adnoddau y gallwn eu defnyddio fel y rheoleiddiwr diogelwch ar-lein, gan gynnwys drwy gasglu gwybodaeth, ymgysylltu goruchwyliol a'n hadroddiadau cyhoeddedig ein hunain, i annog darparwyr i fynd i'r afael â'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn y Canllawiau terfynol.

1.16 Fel rhan o hyn, rydym yn bwriadu cyhoeddi asesiad a fydd yn tynnu sylw at sut mae darparwyr yn mynd i'r afael â diogelwch menywod a merched 18 mis ar ôl cwblhau'r Canllawiau. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r nifer sy'n derbyn y Canllawiau, a chasglu adborth gan fenywod a merched yn y DU ynglŷn â sut mae eu profiadau wedi newid, neu ddim wedi newid. Byddem yn bwriadu i'r adroddiad hwn dynnu sylw at ba wasanaethau sy'n blaenoriaethu diogelwch menywod a merched, gan helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch sut maen nhw'n defnyddio gwasanaethau ar-lein.

1.17 Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â chymdeithas sifil, academyddion, diwydiant ac arbenigwyr eraill i gasglu tystiolaeth a chryfhau ein dealltwriaeth o niwed ar-lein ar sail rhywedd.

## Ein hamcanion arfaethedig ar gyfer y Canllawiau

1.18 Rydym ni am i'r Canllawiau hyn roi fframwaith manwl a chyfannol i ddarparwyr gwasanaethau ar gyfer deall niwed i fenywod a merched ar-lein, ac i nodi gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer diogelwch menywod a merched ar-lein. Rydym yn cynnig tri amcan ar gyfer y Canllawiau (mae'r dull hwn yn cael ei egluro yn y Ddogfen Ymgynghori):

---

[10] Ymhlith y sefydliadau a fynychodd y gweithdy cyntaf mae: Y Ganolfan Diogelu Menywod Ar-lein; Comisiynydd Plant; clymblaid rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod; Swyddfa Weithredol, Gogledd Iwerddon; HateAid; Nexus; Canolfan Dinasyddion Digidol, Prifysgol Northumbria; NSPCC; Rhwydwaith Deddf Diogelwch Ar-lein; Refuge; Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh; SWGfl; Lab Ymchwil Rhyw a Thechnoleg UCL; Comisiynydd Dioddefwyr; Cymorth i Ferched Cymru; Zero Tolerance.

[11] Ymhlith y sefydliadau a fynychodd yr ail weithdy mae: 5Rights; Beyond Equality; Microsoft; Bumble; CEASE; Canolfan Diogelu Menywod Ar-lein; Cranstoun; Digital Rights Foundation; Comisiynydd Plant; clymblaid rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod; Everyone's Invited; Swyddfa Weithredol, Gogledd Iwerddon; Google/YouTube; Sefydliad Deialog Strategol; Match; Meta; Nexus; Canolfan Dinasyddion Digidol, Prifysgol Northumbria; NSPCC; Rhwydwaith Deddf Diogelwch Ar-lein; Reddit; Refuge; Southall Black Sisters; Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh; SWGfl; Twitch; Lab Ymchwil Rhyw a Thechnoleg UCL; Prifysgol Portsmouth; Prifysgol Warwick; Comisiynydd Dioddefwyr; Rhuban Gwyn Gogledd Iwerddon; Cymorth i Ferched Gogledd Iwerddon; Cymorth i Ferched yr Alban; Prosiect Cymorth i Ferched.

1.19 Yn gyntaf, rydym am i'r Canllawiau fod yn adnodd sy'n crynhoi'r ffyrdd y mae gwahanol fathau o gynnwys a gweithgarwch yn effeithio ar fenywod a merched ar-lein, gan ddwyn ynghyd ein sylfaen dystiolaeth ar feysydd penodol a nodir yn Niwed Anghyfreithlon, Amddiffyn Plant, yn ogystal â ffynonellau ychwanegol sy'n ystyried y mater yn ei gyfanrwydd. At ddibenion y Canllawiau arfaethedig, rydym yn canolbwyntio ar y pedwar math canlynol o niwed sy'n gorgyffwrdd sy'n ymwneud â chynnwys a gweithgarwch a nodir yn y Ddeddf. Rydym yn cyfeirio at y rhain gyda'i gilydd fel **niwed ar-lein ar sail rhywedd**.[12] Rydym yn rhoi rhagor o fanylion am sut mae'r niwed hwn yn dod i'r amlwg a'i effeithiau ym Mhennod 2 y Canllawiau drafft. [13]

- **Casineb at fenywod ar-lein:** Mae hyn yn disgrifio cylchredeg – neu hyrwyddo – cynnwys sy'n mynd ati'n weithredol i annog neu gadarnhau syniadau neu ymddygiadau sy'n gysylltiedig â chasineb at fenywod, gan gynnwys drwy normaleiddio trais rhywiol.
- **Beirniadu torfol ac aflonyddu ar-lein:** Mae hyn yn disgrifio achosion lle mae grwpiau o bobl yn cydlynu i dargedu menyw neu ferch benodol, neu grwpiau o fenywod a merched, yn aml drwy eu sarhau a bygwth trais. Er bod beirniadu torfol yn gallu digwydd i unrhyw ddefnyddiwr, mae'n aml yn targedu menywod mewn bywyd cyhoeddus, fel newyddiadurwyr a gwleidyddion.
- **Cam-drin domestig ar-lein:** Mae hyn yn disgrifio defnyddio technoleg ar gyfer ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli yng nghyd-destun perthynas agos.
- **Cam-drin rhywiol ar sail delweddau:** Mae hyn yn cyfeirio at gamddefnyddio delweddau personol (rhannu delweddau personol heb gydsyniad) a seiberfflachio (anfon delweddau anweddus at rywun heb eu caniatâd).

1.20 Yn ail, rydym yn bwriadu i'r Canllawiau nodi argymhellion ymarferol a chyraeddadwy y gall darparwyr eu rhoi ar waith i wella diogelwch menywod a merched mewn ffyrdd sy'n mynd y tu hwnt i'r mesurau rydym eisoes wedi'u nodi yn y Codau a'r canllawiau ar asesu risg. Rydym yn bwriadu defnyddio'r broses ymgynghori hon i barhau i hwyluso sgyrsiau rhyngom ni, darparwyr gwasanaethau, sefydliadau cymdeithas sifil, ymchwilwyr, goroeswyr a dioddefwyr, sefydliadau technoleg diogelwch, cyrff yn y sector cyhoeddus ac arbenigwyr eraill am y cynigion rydym wedi'u nodi a sut i fynd â'r rhain ymhellach. Rydym yn gobeithio casglu gwybodaeth ychwanegol a thynnu sylw at faterion sy'n dod i'r amlwg.

1.21 Yn drydydd, rydym yn gweld y Canllawiau fel cyfle i ddangos i'r diwydiant yr angen dybryd i weithredu i wella diogelwch ar-lein menywod a merched a chynnig y gefnogaeth a'r anogaeth iddynt wneud hynny. Rydym ni am ddefnyddio ein rôl fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein i dynnu sylw at ddarparwyr penodol sy'n cymryd camau ystyrlon a beiddgar yn ogystal â'r darparwyr hynny nad ydynt yn gwneud hynny.

---

[12] Dyma'r term rydym yn ei ddefnyddio i ddisgrifio ein dull gweithredu ar gyfer 'cynnwys a gweithgarwch sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched' fel y nodir yn adran 54 o Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023. Mae termau cyffredin eraill i ddisgrifio'r niwed hwn, gan gynnwys trais ar-lein yn erbyn menywod a merched (VAWG) a thrais ar sail rhywedd a hwylusir gan dechnoleg. Er bod y termau eraill hyn yn cyfeirio at is-set debyg o niwed, rydym wedi dewis niwed ar-lein ar sail rhywedd gan ei fod yn adlewyrchu cwmpas y Canllawiau drafft orau.

[13] Nid yw nodi ystod mor eang o gynnwys sy'n berthnasol i brofiadau menywod a merched ar-lein yn golygu ein bod yn disgwyl i bob cynnwys o'r fath gael ei dynnu i lawr neu ei blismona'n drwm. Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod yn briodol i ddarparwyr edrych yn gyfannol ar brofiadau menywod a merched ar-lein wrth wneud penderfyniadau am eu polisïau, eu hadnoddau a'r nodweddion maen nhw'n eu cynnig i ddefnyddwyr, a sut gallai'r dewisiadau hynny effeithio ar ddiogelwch menywod a merched.

## I bwy mae'r Canllawiau'n berthnasol?

1.22 Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau defnyddiwr i ddefnyddiwr sy'n cael eu rheoleiddio a darparwyr gwasanaethau chwilio sy'n cael eu rheoleiddio i nodi, i liniaru ac i reoli'r risgiau o niwed o gynnwys a gweithgarwch anghyfreithiol yn ogystal â chynnwys a gweithgarwch niweidiol i blant. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o lwyfannau gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, gemau, fforymau trafod, gwasanaethau pornograffi,[14] gwasanaethau cwrdd â chariad a marchnadoedd ar-lein. Mae'r ffyrdd y mae niwed sy'n targedu menywod a merched yn dod i'r amlwg ar y gwasanaethau hyn yn gallu amrywio ac mae'r mathau o ymyriadau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r niwed hwnnw'n datblygu'n gyflym.

1.23 Er ein bod yn disgwyl i lawer o'r cynigion yn y Canllawiau drafft fod yn berthnasol i bob gwasanaeth, bydd ein ffocws – o ran datblygu ein cynigion a'n hymgysylltiad yn y dyfodol – ar y gwasanaethau hynny sydd â'r cyrhaeddiad uchaf neu'r risg uchaf o niwed ar-lein ar sail rhywedd.

1.24 Rydym yn cydnabod nad yw niwed ar-lein ar sail rhywedd yn digwydd ar ei ben ei hun ar wasanaethau o'r fath. Mae amrywiaeth o dechnolegau eraill sy'n gallu helpu i hwyluso neu gynyddu'r niwed hwn, gan gynnwys dyfeisiau Rhyngrwyd Pethau fel technolegau clyfar, y gall y rhai sy'n cam-drin pobl yn ddomestig eu camddefnyddio,[15] a Bluetooth,[16] sy'n cael ei ddefnyddio'n aml ar gyfer seiberfflachio.[17] Lle bo'n berthnasol, rydym yn cyfeirio yn y Canllawiau drafft at sut mae'r technolegau hyn yn cael eu defnyddio i hwyluso neu i gynyddu niwed ar-lein. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth a ddarparwn yn y Canllawiau drafft yn helpu darparwyr y technolegau hyn i wella diogelwch.

## Y camau nesaf

1.25 Rydym yn gwahodd rhanddeiliaid i leisio eu barn ar ein Canllawiau drafft. Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 23 Mai 2025.

1.26 Ar ôl i ni ystyried yr holl ymatebion, byddwn yn cyhoeddi datganiad yn egluro ein penderfyniadau terfynol ar y Canllawiau, ochr yn ochr â'r Canllawiau terfynol ei hun. Rydym yn disgwyl gwneud hyn erbyn diwedd 2025.

---

[14] Nid yw'r Canllawiau'n berthnasol i ddarparwyr sy'n cyhoeddi neu'n arddangos cynnwys pornograffig eu hunain, heb unrhyw ryngweithio defnyddiwr i ddefnyddiwr na chynnwys chwilio. Mae Rhan 5 o'r Ddeddf yn nodi dyletswyddau darparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio mewn perthynas â chynnwys pornograffig penodol. Mae Adran 79 yn darparu'r diffiniadau o 'gynnwys pornograffig darparwr' a 'chynnwys pornograffig darparwr rheoleiddiedig'. Mae Ofcom wedi cynhyrchu canllawiau ar wahân ar gyfer y gwasanaethau hyn. [cyrchwyd 11 Chwefror 2025].

[15] Slupska, J. a Tanczer, L., 2021. Threat Modeling Intimate Partner Violence: Tech Abuse as a Cybersecurity Challenge in the Internet of Things. [cyrchwyd 3 Ionawr 2025]. Comisiwn eDdiogelwch Awstralia, 2024. Technology, gendered violence and Safety by Design. [cyrchwyd 3 Ionawr 2025]

[16] Mae Bluetooth yn caniatáu 'paru' di-wifr rhwng dwy ddyfais agos gan ddefnyddio rhwydwaith cymar-i-gymar. Gellir defnyddio 'paru' Bluetooth i rannu ffeiliau rhwng dyfeisiau, a gall cyflawnwyr ddefnyddio hyn i rannu delweddau anweddus digymell â dyfeisiau cyfagos a seiberfflachio defnyddiwr y ddyfais.

[17] Comisiwn y Gyfraith, 2021. Modernising Communications Offences: A final report. [cyrchwyd 26 Gorffennaf 2023].